# TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol

## Amlinelliad o'r Cymhwyster



Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

# Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r Cymhwyster CBAC TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

## Trosolwg o'r Cymhwyster

Bydd y cymhwyster TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud y canlynol:

- Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[1], gan roi cyfle i'r dysgwyr:
    - fynd i'r afael â genres, technegau, offer, deunyddiau a dulliau sy'n eu galluogi i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol
    - dod i ddeall y ffordd y mae'r celfyddydau mynegiannol yn cyfathrebu drwy ddulliau gweledol, corfforol, geiriol, cerddorol a thechnolegol
    - meithrin eu dychymyg a thynnu ar eu profiadau, eu sgiliau a'u doniau er mwyn iddyn nhw ddod yn artistiaid creadigol eu hunain
    - edrych ar waith o ddiwylliannau a chymdeithasau amrywiol, gan ddysgu am eu dylanwadau, eu hanesion a'u heffaith
    - ystyried gwaith creadigol mewn amrywiaeth o gyfryngau, ffurfiau, genres ac arddulliau
    - dysgu sgiliau dadansoddi pwysig o fireinio a dadansoddi
    - adfyfyrio ar effeithiolrwydd eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, gan gynnwys gwaith artistiaid amrywiol o Gymru a thu hwnt
    - bod yn arloesol a beiddgar, a chreu gwaith unigol
    - cyfathrebu drwy amrywiaeth o ffurfiau a chyfryngau digidol

- Cefnogi'r egwyddorion cynnydd[2] drwy annog dysgwyr i:
    - archwilio, profi, dehongli, creu ac ymateb i ystyr sy'n gynyddol gymhleth
    - datblygu dysgu cysyniadol sy'n gynyddol soffistigedig
    - datblygu defnydd mwy soffistigedig o sgiliau perthnasol a'r gallu i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destun newydd.

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/
[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/egwyddorion-cynnydd/



© WJEC CBAC Ltd 2024.

- Cefnogi'r ystyriaethau pwnc-benodol ar gyfer y Ffilm a Chyfryngau Digidol[3] drwy roi cyfle i ddysgwyr ystyried:
  - Agweddau ar gyn-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu, gan gynnwys golygu, sinematograffi; sain, dylunio cynhyrchiad (gan gynnwys mise-en-scène), naratif, arddull, genre.
  - Cynhyrchion a ffurfiau: ffilm, teledu, sain (podledu a radio digidol), gemau fideo, gwefannau.
  - Dosbarthu ac arddangos: llwyfannau ar-lein (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a gwefannau ffrydio), sinema, teledu digidol, llwyfannau gemau fideo.
  - Cynhyrchwyr a chynulleidfaoedd, gan gynnwys defnyddwyr, 'cynhyrchwyr-ddefnyddwyr', gwylwyr, crëwyr cynnwys.
  - Negeseuon, moeseg a materion: cynrychioli pobl, hunaniaethau, lleoedd a chymdeithas, rhaniad digidol, materion cyfryngau cymdeithasol (gan gynnwys preifatrwydd, tuedd a chamwybodaeth).

## Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

| |
|---|
| **Uned 1: Archwilio materion a chysyniadau allweddol**<br>Arholiad digidol yn unig<br>30% o'r cymhwyster |
| **Uned 2: Ymchwilio i'r diwydiannau ffilm a chyfryngau digidol yng Nghymru**<br>Asesiad di-arholiad<br>30% o'r cymhwyster<br>Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC |
| **Uned 3: Creu cynnwys ffilm a chyfryngau digidol**<br>Asesiad di-arholiad<br>40% o'r cymhwyster<br>Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC |

- Dyma'r canrannau arfaethedig ar gyfer y pedwar amcan asesu:

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | **Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth** o brosesau a chynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol. | 15% |
| **AA2** | **Datblygu a defnyddio** technegau creadigol a sgiliau cynhyrchu mewn ystod o gyd-destunau gwahanol / cyfryngau o ffurfiau gwahanol. | 30% |
| **AA3** | **Dadansoddi, gwerthuso ac adfyfyrio** ar eu gwaith eu hunain a gwaith eraill. | 30% |
| **AA4** | **Creu a datblygu** syniadau i gyfleu ystyr mewn canlyniadau cyfryngau digidol a/neu ffilm. | 25% |

Cymhwyster llinol fydd hwn. Gellid cwblhau Uned 2 ac Uned 3 unrhyw bryd yn ystod y ddwy flynedd a'u cyflwyno i CBAC ym mlwyddyn olaf y cwrs. Fodd bynnag, dylai canolfannau sicrhau mai dim ond pan fydd dysgwyr wedi ymgymryd â'r addysgu a'r dysgu angenrheidiol ac wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol y caiff yr asesiad o Uned 2 ac Uned 3 ei gwblhau. Byddai Uned 1 yn cael ei harholi yn ystod blwyddyn olaf y cwrs.

[3] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/cynllunio-eich-cwricwlwm/#ystyriaethau-penodol-ar-gyfer-y-maes-hwn



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Gwybodaeth am Unedau

### Uned 1 – Archwilio materion a chysyniadau allweddol

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y caiff cynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol eu llunio.
- Dangos ymwybyddiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol, hanesyddol a chynhyrchu y caiff cynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol eu cynhyrchu ynddynt.
- Archwilio sut mae cynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol yn cynrychioli hunaniaeth a lle.
- Archwilio materion moesegol yn ymwneud â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac effaith hyn.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- **archwilio –** bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio sut y caiff cynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol eu llunio a sut maent yn cynhyrchu ystyr ac ymateb, drwy astudio elfennau ffilm a chyfryngau digidol (gan gynnwys golygu, sinematograffi, dylunio cynhyrchiad a sain), cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol ehangach, a chynrychioliadau.
- **ymateb ac adfyfyrio –** bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ymateb i gynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol, gan gynnwys cynnyrch / darn nad ydynt wedi'i weld o'r blaen, adfyfyrio ar effaith y cyfryngau cymdeithasol ac ymateb i faterion allweddol ym maes cynhyrchu cyfryngau cymdeithasol.

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad digidol a fydd ar gael yng nghyfres yr haf ym mlwyddyn olaf yr astudio. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1 ac AA3. Bydd AA1 ac AA3 yn cael eu pwysoli'n gyfartal. Bydd dewis o weithiau gosod a fydd yn cynnwys gwaith: o arddulliau/genres cyferbyniol; o gyfnodau cyferbyniol; sydd wedi'u creu yng Nghymru neu wedi'u hysbrydoli gan Gymru; sydd wedi'u creu gan amrediad amrywiol o grewyr cynnwys gan gynnwys o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Uned 2 - Ymchwilio i'r diwydiannau ffilm a chyfryngau digidol yng Nghymru

**Pwrpas yr uned hon yw:**
- Archwilio'r ffordd y mae diwydiannau ffilm a chyfryngau digidol yn gweithredu yng Nghymru
- **Ymchwilio i'r ffordd mae cynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol yn cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu**
- Datblygu sgiliau creadigol drwy greu ymgyrch ddosbarthu neu arddangos

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael cyfle i archwilio'r ffordd mae'r diwydiannau ffilm a chyfryngau digidol yn gweithredu yng Nghymru drwy brofiadau ac ymchwilio i gwmni cynhyrchu penodol yng Nghymru, megis Stiwdios BBC Cymru, Severn Screen neu Ffilm Cymru. Bydd dysgwyr hefyd yn archwilio materion moesegol o amrywiaeth a chynhwysiant yn y diwydiannau ffilm a chyfryngau digidol yng Nghymru.
- **ymateb ac adfyfyrio** – bydd dysgwyr yn cael cyfle i ymateb i gynhyrchion sy'n cael eu creu gan eu cwmni cynhyrchu o ddewis yng Nghymru, ac adfyfyrio ar sut mae'r cynhyrchion hyn yn cael eu hariannu, eu dosbarthu a'u harddangos, a sut maen nhw'n anelu i gynrychioli Cymru a thalent o Gymru.
- **creu** – bydd dysgwyr yn ymateb i friff statig sy'n caniatáu iddyn nhw greu cynnig ymgyrch ddosbarthu neu arddangos ar gyfer eu cwmni cynhyrchu o ddewis yng Nghymru i hyrwyddo ffilm a chyfryngau digidol o Gymru.

Defnyddir asesiad di-arholiad ar ffurf portffolio ymarferol i asesu'r uned hon. Cyflwynir y portffolio ym mlwyddyn olaf y cwrs fel rhan o gyfres yr haf. Rhaid cyflwyno'r asesiad di-arholiad yn ddigidol. Bydd cymysgedd y tasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA2, AA3 ac AA4. Bydd pwysoli uwch am AA2, ac yna AA4, wedyn AA3. Caiff yr uned ei hasesu'n fewnol, ei marcio gan y ganolfan a'i chymedroli'n allanol gan CBAC.

## Uned 3 – Creu cynnwys ffilm a chyfryngau digidol

**Pwrpas yr uned hon yw:**
- Datblygu sgiliau ymarferol creadigol drwy waith cynhyrchu
- Adfyfyrio ar eich gwaith cynhyrchu eich hun a chymharu â gwaith proffesiynol
- Datblygu sgiliau personol o ran gwneud penderfyniadau a hyder.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio'r ffordd y caiff cynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol eu creu.
- **ymateb ac adfyfyrio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ymateb i friff a gaiff ei osod gan CBAC ac adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain drwy log myfyriol.
- **creu** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i greu cynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol mewn ymateb i'r briff gosod.

Defnyddir asesiad di-arholiad yn seiliedig ar aseiniad ymarferol a log myfyriol i asesu'r uned hon. Cyflwynir y rhain ym mlwyddyn olaf y cwrs fel rhan o gyfres yr haf. Rhaid cyflwyno'r asesiad di-arholiad yn ddigidol. Bydd cymysgedd y tasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA2, AA3 ac AA4. Bydd pwysoli uwch am AA2 ac AA4, wedi'i ddilyn gan AA3. Bydd yr uned hon yn cael ei gosod gan CBAC, ei marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC.


© WJEC CBAC Ltd 2024.
DRAFT

## Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd

Wrth ddatblygu'r amlinelliad arfaethedig hwn o'r cymhwyster, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd, a hefyd sut i gydbwyso'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn ôl y Meini Prawf Cymeradwyo, mae angen asesu 70% o'r cymhwyster drwy asesiad di-arholiad wedi'i osod gan CBAC. Gallai hyn achosi rhai heriau hydrinedd i'r canolfannau a dysgwyr. Bwriadwn geisio lleihau hyn i'r eithaf drwy ledaenu'r llwyth gwaith a'r asesiad i'r canolfannau ac i'r dysgwyr. Gan fod y Meini Prawf Cymeradwyo yn nodi ei bod yn ofynnol i'r cymhwyster fod yn llinol, mae hyn yn golygu bod rhai cyfyngiadau. Bwriadwn felly ddarparu asesiad Uned 2 ac Uned 3 ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn gyntaf yr astudio i'w gyflwyno i CBAC yng nghyfres yr haf ym mlwyddyn olaf yr astudio. Bydd Uned 1 ar gael i ddysgwyr ym mlwyddyn olaf yr astudio, gan olygu y bydd modd asesu dysgwyr ar ôl iddynt gwblhau addysgu a dysgu'r uned berthnasol. Fodd bynnag, rydym wedi rhoi Uned 1 yn gyntaf gan fod yr uned hon yn darparu'r sylfeini ar gyfer y cwrs – deall sut mae cynhyrchion cyfryngau yn creu ystyr ochr yn ochr â materion allweddol yn y cyfryngau. Credwn mai dim ond ar ôl i'r wybodaeth hon gael ei sefydlu y gellir mynd ati i greu.

Er ein bod yn cydnabod bod hyn yn effeithio ar hydrinedd, daethpwyd i'r casgliad bod lefel uchel o reolaeth yn hanfodol ar gyfer elfennau o'r ddau asesiad di-arholiad, er mwyn sicrhau tegwch i ddysgwyr. Bydd elfennau o'r asesiadau di-arholiad yn cael eu cynnal dan lefel isel o reolaeth (Uned 3 y log myfyriol). Credwn y bydd cynnal yr elfennau hyn dan lefel isel o reolaeth yn helpu o ran hydrinedd i'r canolfannau ac yn gweithio fel ffordd ddilys o fodloni gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer dysgwyr er mwyn dangos eu bod yn deall y broses greadigol ac yn ei gwerthuso'n feirniadol.

Bydd hyblygrwydd o ran fformat yr asesiad di-arholiad. Drwy fod yn hyblyg fel hyn, bydd mwy o hydrinedd i ganolfannau. Bydd hyn yn caniatáu iddyn nhw ddewis y fformat neu amrediad o fformatau sydd fwyaf addas i'w dysgwyr o ran yr adnoddau sydd ar gael iddyn nhw.
Credwn y dylai ein cymhwyster arfaethedig ddarparu cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio sy'n ennyn diddordeb eu dysgwyr, yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r cymhwyster yn gyfle i ddysgwyr ddeall tirwedd bresennol y Ffilm a Chyfryngau Digidol a'i heffaith ar unigolion a chymdeithas.

Credwn fod y tasgau asesu di-arholiad a fwriadwn (Unedau 2 a 3) yn ffordd ddilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys gan eu bod yn caniatáu i fyfyrwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol. Er mwyn sicrhau bod yr asesiadau di-arholiad yn ddibynadwy, byddwn yn sicrhau y bydd yr unedau yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu ym mhob cyfres asesu. Datblygir meini prawf marcio a bydd pecyn o gefnogaeth ar gael i athrawon a fydd yn sicrhau bod y meini prawf marcio'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws canolfannau ac ym mhob cyfres. Byddwn yn cymedroli sampl o waith y ganolfan fel ffordd ychwanegol o sicrhau dibynadwyedd.

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

Credwn fod modd asesu pwrpas a chynnwys Uned 1 yn ddilys drwy arholiad, a gall cymysgedd o fathau o gwestiynau ein helpu i'w gwneud mor ddilys â phosibl. Pan fyddwn yn datblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, eu bod yn gytbwys o ran y cynnwys yr ymdrinnir ag ef dros amser a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr unedau a arholir yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson. Rydym mewn cysylltiad â Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru o ran gallu'r canolfannau i ddarparu'r asesiad ar sgrin.

Wrth ystyried pwysoliadau'r Amcanion Asesu, rydym yn cynnig defnyddio'r goddefiant 5% i gynyddu AA3 oherwydd credwn fod hyn yn hollbwysig i'r tair uned. Mae adfyfyrio ar waith eraill yn bwysig wrth ddadansoddi a deall cynhyrchion cyfryngau a ffilm yn Uned 1. Yn Uned 2, bydd dysgwyr hefyd yn adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain wrth ddatblygu eu portffolio ar 'ymchwilio i'r diwydiannau ffilm a chyfryngau digidol yng Nghymru', a bydd dysgwyr yn adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith eraill gyda'r log myfyriol yn Uned 3.

Byddwn yn parhau i ystyried y gydbwysedd o ran hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## ATODIAD
## Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

### Diben

**1.** Rhaid i'r **TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol**:

**1.1.** gael ei ddylunio'n bennaf ar gyfer *Dysgwyr* rhwng 14 ac 16 oed
**1.2.** adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae *Dysgwyr* wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
**1.3.** cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy’n eang, yn heriol, yn berthnasol ac yn afaelgar ac sy'n cysylltu â’r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei bedwar diben
**1.4.** galluogi *Dysgwyr* i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
**1.5.** darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad *Dysgwr* mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae *Dysgwyr* yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

### Nodau

**2.** Rhaid i'r **TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol**:

**2.1.** ganiatáu i *Ddysgwyr* archwilio ystod o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â chyfryngau digidol a ffilm
**2.2.** darparu cyfleoedd i *Ddysgwyr* gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon

**3.** Rhaid i'r **TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol**:

**3.1.** archwilio a gwerthfawrogi cynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol pobl eraill er mwyn datblygu eu talentau ffilm a chyfryngau digidol eu hunain
**3.2.** datblygu gwybodaeth, gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o ddefnydd ac effaith ffilm a chyfryngau digidol a sut mae ystyr yn cael eu gyfleu
**3.3.** ennill dealltwriaeth o genres a chyd-destunau ffilm a chyfryngau digidol
**3.4.** ymateb i gyfryngau digidol a ffilm a grëwyd gan bobl eraill ac adfyfyrio arno, gan gymhwyso gwybodaeth am gyd-destunau i werthuso effeithiolrwydd syniadau a thechnegau a ddefnyddir i gyfleu ystyr
**3.5.** datblygu sgiliau creadigol trwy arbrofi ac ymchwilio i gynllunio, dylunio a chreu cynhyrchion cyfryngau digidol a/neu ffilm effeithiol
**3.6.** cymhwyso sgiliau technegol i ddangos rheolaeth
**3.7** adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, ei fireinio a’i werthuso
**3.8** galluogi i *Ddysgwyr* archwilio'r themâu trawsbynciol o hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys themâu, cyfraniadau a phrofiadau pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig


© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Amcanion Asesu

**9.** Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen yn y cymhwyster dargedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoli a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | **Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth** o brosesau a chynhyrchion ffilm a chyfryngau digidol. | 15% |
| **AA2** | **Datblygu a defnyddio** technegau creadigol a sgiliau cynhyrchu mewn ystod o gyd-destunau gwahanol / cyfryngau o ffurfiau gwahanol. | 35% |
| **AA3** | **Dadansoddi, gwerthuso ac adfyfyrio** ar eu gwaith eu hunain a gwaith eraill. | 25% |
| **AA4** | **Creu a datblygu syniadau** i gyfathrebu ystyr mewn cyfansoddiadau<br><br>cyfryngau digidol a/neu ffilm. | 25% |

## Cynllun asesu

**10.** Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol** fod yn llinol.

**11.** Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol** ddangos cyfran y marciau (wedi'u pwysoli a/neu'n grai) a ddyrennir i bob amcan asesu ac i bob *Cydran*.

**12.** Rhaid i'r fanyleb **TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol** gynnwys y trefniadau asesu canlynol:

- **12.1.** bydd cyfanswm o 70% o'r cymhwyster yn cael ei asesu drwy asesiad di-arholiad
- **12.2.** rhaid i'r asesiad di-arholiad gynnwys portffolio a fydd yn cael ei farcio gan y *Ganolfan* a'i *Gymedroli* gan y corff dyfarnu
- **12.3.** rhaid i'r asesiad di-arholiad gynnwys aseiniad a fydd yn cael ei osod gan y corff dyfarnu, ei farcio gan y *Ganolfan* a'i *Gymedroli* gan y corff dyfarnu
- **12.4.** rhaid gallu cyflwyno'r asesiadau di-arholiad yn ddigidol
- **12.5.** Rhaid i *ddysgwyr* gyflwyno'r asesiad di-arholiad ym mlwyddyn olaf y cwrs
- **12.6.** Rhaid i *ddysgwyr* gyflwyno log myfyriol mewn fformat nad yw'n cael ei ragnodi. Bydd y log myfyriol hwn yn orfodol i gyrraedd yr ystod lawn o farciau, a bydd yn rhaid iddo:
  - **12.6.1.** fod yn werth dim llai na 2% a dim mwy na 5% o gyfanswm y cymhwyster
  - **12.6.2.** fod yn werth nifer sefydlog o'r marciau sydd ar gael
  - **12.6.3.** gallu cael ei gyflwyno'n ddigidol
  - **12.7.** rhaid i'r corff dyfarnu osod y gofynion sylfaenol ar gyfer log myfyriol derbyniol
  - **12.8.** rhaid i'r corff dyfarnu osod meini prawf sy'n gwahaniaethu'n gywir ac yn gyson rhwng log myfyriol boddhaol ac anfoddhaol

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

**13.** Bydd cyfanswm o 30% o'r cymhwyster yn cael ei asesu drwy arholiad digidol yn unig y mae'n rhaid iddo:

**13.1.** gael ei osod a'i farcio gan y corff dyfarnu

**13.2.** gofyn i *Ddysgwyr* adolygu ac ymateb i recordiadau o waith proffesiynol

**13.3.** cynnwys cwestiynau ar waith sydd wedi'i astudio ac sydd heb ei weld yn flaenorol

**14.** Rhaid i'r corff dyfarnu nodi ei reolau ynghylch ailsefyll ac ailgyflwyno ar gyfer **TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol** yn unol â'r *Amodau a Gofynion ar gyfer TGAU Cenedlaethol.*

DRAFFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.